



John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

19 Ionawr 2021

Annwyl John

Yn y Pwyllgor Busnes ar 12 Ionawr, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn cael ei gohirio tan 10 Chwefror. Rwy'n ysgrifennu atoch i egluro pam y bu hyn yn angenrheidiol.

Ar 9 Rhagfyr cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ynghylch taliadau gwasanaeth a godir gan rai cymdeithasau tai a sefydliadau'r trydydd sector ar denantiaethau byrddaliol sicr. Mae'r datganiad wedi'i atodi er hwylustod. Fel y nodir yn y datganiad, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddiogelu tenantiaid rhag ffioedd annheg. Fodd bynnag, mae wedi cael canlyniad anfwriadol mewn perthynas â thaliadau gwasanaeth a godir ar denantiaethau byrddaliol sicr gan gymdeithasau tai a darparwyr llety â chymorth. Yn fy Natganiad, nodais y bwriad i gyflwyno Offeryn Statudol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ers cyhoeddi'r Datganiad, daeth yn amlwg y bydd angen ôl-ddeddfwriaeth i ddatrys y mater yn llawn. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gwelliant i Ddeddf 2019 drwy welliant ychwanegol i Fil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru), sydd eisoes yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 2019. Bwriad yr oedi byr i Gyfnod 3 yw rhoi amser ar gyfer paratoi'r gwelliant hwnnw.

Rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a hoffwn bwysleisio bod y camau hyn wedi'u cymryd i sicrhau y gellir datrys y mater yn gyflym.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai fy swyddogion yn hapus i gyfarfod â'r Pwyllgor i ddarparu briff technegol anffurfiol ar y gwelliant hwn, os ystyriwch y byddai hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government